Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Y Cynllun Grant Busnes i Ffermydd

## Atodiad i Y Grant Busnes i Ffermydd Llyfryn Rheolau Cyffredinol

OGL

© Crown Copyright 2015 ISBN Number: 978-1-78903-420-2

## Adran G: Y Drefn Apelio a Chwyno

### G1 Y drefn apelio

**G1.1** Mae'r *'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr a Choedwigwyr yng Nghymru'* yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau cynllun. Bydd y broses yn edrych ar benderfyniadau'n ymwneud â:

- BPS (ac SPS)
- Holl gynlluniau Glastir
- Cynllun Coetir Ffermydd, Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd, y Premiwm Tir wedi'i Wella.

**G1.2** Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddwy ran:

- Cam 1: RPW i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os byddwch yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1).

**G1.3** Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater gan ddod â'r broses i ben.

**G1.4** Nid oes tâl am Gam 1 y broses ond codir tâl ar gyfer Cam 2 - £50 am wrandawiad ysgrifenedig a £100 am wrandawiad llafar. Bydd yr arian hwn yn cael ei dalu'n ôl yn llawn os bydd Cam 2 yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

**G1.5** Rhaid i apêl, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, gyrraedd o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

**G1.6** Mae croeso ichi ohebu â ni yn y Gymraeg a byddwn yn ateb unrhyw lythyr yn y Gymraeg os mai honno yw'r iaith sy'n well gennych ei defnyddio.

**G1.7** Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y drefn apelio, cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ewch i'n gwefan yn: www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth

### G2 Y drefn gwyno

**G2.1** Byddwn yn delio â chwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron

Rhif y Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2017
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 801378
E-bost: complaints@wales.gsi.gov.uk
www.llyw.cymru/cysylltuâni/cwyno

**G2.2** Gallwch gysylltu hefyd ag:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed,
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan:
www.ombudsman-wales.org.uk

Rhif y Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2017
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru